



**Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin -
Adroddiad ar Weithredu
Ionawr - Rhagfyr 2022**

Partneriaeth Natur
SIR GŶR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership



Rhagarweiniad

Mae Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin yn cynnwys nifer o bartneriaid sydd â gwybodaeth, profiad a brwdfrydedd helaeth ynghylch bioamrywiaeth y sir. Fe'i hwylusir gan Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor ac mae wedi'i sefydlu ers dros 20 mlynedd.

Mae Sir Gaerfyrddin yn cynnal cymysgedd cyfoethog o wahanol [gynefinoedd](#) sy'n ffurfio ein tirweddau, y dylanwadwyd ar y rhan fwyaf ohonynt gan hanes hir o weithgarwch dynol ac arferion rheoli tir. Pa un a ydynt dros ardaloedd mawr neu fach, mae pob un o'n cynefinoedd amrywiol, a'r rhywogaethau sy'n byw ynddynt, yn ychwanegu at gyfoeth bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin. Maent i gyd yn cyfrannu i'n profiad o fyw yma a hefyd i economi'r sir, i iechyd a llesiant ein dinasyddion, i'r ddarpariaeth bwyd, dŵr ac aer glân ac i'n diwylliant lleol. Mae amgylchedd naturiol iach yn rhan hanfodol o Sir Gaerfyrddin gynaliadwy, gadarn ac unigryw.

Fodd bynnag, nodwyd yn adroddiad [Sefyllfa Byd Natur: Cymru 2019](#) fod newid sylweddol wedi bod ym mywyd gwyllt Cymru yn ystod y degawdau diwethaf, a bod tystiolaeth o ddirywiad cyffredinol yn yr amrywiaeth o rywogaethau ac yn hyd a lled cynefinoedd naturiol a lled-naturiol. Mae'r [Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol](#) (SoNaRR 2020) a gyhoeddwyd gan CNC yn cydnabod cymhlethdod manylion yr asesiad bioamrywiaeth sydd yn yr adroddiad, ac yn nodi bod "y duedd gyffredinol yn un o ddirywiad difrifol, gan adlewyrchu'r sefyllfa fyd-eang ac argyfwng byd natur a gydnabyddir yn rhyngwladol". Gwir y gair yn Sir Gaerfyrddin.

Ar ôl i'r Senedd ddatgan Argyfwng Natur yng Nghymru 2021 a chydnabod bod cysylltiad annatod rhwng yr argyfyngau natur a hinsawdd, gwnaeth Sir Gaerfyrddin yr un peth yn 2022. Hefyd yn 2022, cynhaliodd Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Newid yn yr Hinsawdd, gan weithio gyda grŵp o arbenigwyr ac ymarferwyr allweddol, 'Archwiliad Dwfn [Bioamrywiaeth](#)' i ddatblygu cyfres o gamau gweithredu ar y cyd y gallwn eu rhoi ar waith yng Nghymru i gefnogi adferiad byd natur. Dewiswyd y targed '30x30' fel ffocws strategol ac mae'n cyfeirio at warchod, a rheoli'n effeithiol o leiaf 30% o'n tir, dŵr croyw a môr ar gyfer natur erbyn 2030, drwy wella cyflwr, cysylltedd a gwydnwch safleoedd gwarchodedig, ardaloedd dynodedig a meysydd allweddol eraill sy'n sicrhau canlyniadau bioamrywiaeth. Nododd argymhelliad allweddol yn yr Archwiliad Dwfn yr angen am feithrin gallu, newid ymddygiad, codi ymwybyddiaeth a datblygu sgiliau ar draws y sector. Cydnabuwyd Partneriaethau Natur Lleol (LNPs) fel rhwydwaith allweddol o ran cefnogi'r gwaith o weithredu partneriaeth gydweithredol ar gyfer adferiad natur ar lefel leol a'r bwriad yw darparu cyllid i gefnogi Partneriaethau Natur Lleol yng Nghymru. Mae yna gydnabyddiaeth y bydd adferiad byd natur yn gofyn am dull cymdeithas gyfan i gyflawni ar gyfer byd natur ac ar gyfer pobl.

Mae 30 x 30 yn un o nifer o dargedau a fydd yn rhan o Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang newydd i'w gytuno yn y 15ed [Cynhadledd y Partïon](#) i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol (COP 15) ym mis Rhagfyr 2022. Mewn cyfarfod ar-lein blaenorol (COP15, rhan 1) roedd ymrwymiad i roi bioamrywiaeth y byd ar lwybr at adferiad erbyn 2030. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, un flaenoriaeth yw gweithio tuag at gwblhau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang.

[Yn y pen draw, bydd hyn i gyd yn dylanwadu ar ein gwaith ar lefel leol, gan gynnwys diweddarau a chyflawni Cynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin.](#)

Mae adroddiad rhynglywodraethol 2019 (asesiad [IPBES](#) 2019) hefyd wedi dangos y gydberthynas gref rhwng newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llesiant dynol. Dylai unrhyw fframwaith lleol ar gyfer mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ystyried yr effaith ar fioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin, a hefyd ystyried sut gall ein hamgylchedd naturiol helpu i liniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo. Ni allwn ddatrys bygythiadau newid yn yr hinsawdd o achos gweithgarwch dynol ar yr un llaw a cholli bioamrywiaeth ar y llaw arall. Rydym naill ai'n datrys y ddau beth neu ddim un ohonynt.

Mae gwaith y partneriaid, a'r prosiectau maent yn ymgymryd â nhw, yn arwain at ganlyniadau sy'n helpu i warchod a gwella ein hamgylchedd naturiol, ac yn aml at fanteision lawer sy'n gwella llesiant y bobl sy'n byw yma. Mae eu gwaith yn cyfrannu at amcanion a chanlyniadau nifer o gynlluniau cenedlaethol a lleol, sydd â nodau ar gyfer yr amgylchedd naturiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- [Cynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin](#) sy'n cyfrannu at y strategaeth fioamrywiaeth genedlaethol a'r cynllun gweithredu dros Gymru sy'n gweithio tuag at wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru a gwella cadernid ein hecosystemau. Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Sir Gaerfyrddin yn canolbwyntio ar wydnwch ecolegol ac mae cysylltedd yn thema ganolog iddo. Mae hyn yn rhan o weledigaeth i adfer a chreu rhwydweithiau o gynefinoedd sydd wedi'u cysylltu'n well o fewn y sir.
- [Amcanion Llesiant](#) Cyngor Sir Gaerfyrddin a [Chynllun Llesiant](#) Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin.

Hefyd mae [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) yn pennu dyletswydd i gynllunio ac i reoli ein hadnoddau naturiol. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i'w gwneud yn ofynnol i'r holl gyrff cyhoeddus, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, geisio 'cynnal a gwella bioamrywiaeth' pan fo hynny'n rhan o'u swyddogaethau cymwys a cheisio 'hyrwyddo cadernid ecosystemau'. Mae'r Cyngor wedi paratoi Blaen-gynllun i ddangos sut y bydd yn ymgorffori'r ddeddfwriaeth hon wrth ddarparu ei wasanaethau, ac adroddwyd ynghylch hyn i Lywodraeth Cymru.

Mae Partneriaethau Natur Lleol yn ddull cyflawni allweddol sy'n gallu helpu i ddarparu ffocws lleol a chyflawni'r holl amcanion hyn. Yn 2022, cafodd adroddiad Sefyllfa Byd Natur ar gyfer Sir Gaerfyrddin ei ddrafftio a bydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod hanner cyntaf 2023.

Gall pobl leol wneud gwahaniaeth hefyd ac mae gan yr holl bartneriaid rôl i'w chwarae o ran codi ymwybyddiaeth a gweithio gyda chymunedau ar brosiectau sy'n fanteisiol i fioamrywiaeth - a'r bobl sy'n cymryd rhan ynddynt.

Crynodeb yw hwn o rai o gyflawniadau'r partneriaid yn 2022, a hynny gan gydweithio'n aml, o ran gwarchod a gwella'r ystod helaeth o gynefinoedd a rhywogaethau sydd yn Sir Gaerfyrddin.

PARTNERIAITH NATUR SIR GAERFYRDDIN



Parhaodd **Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru (INCC)** i wneud gwaith yn Nyffryn Aman eleni i wella'r ardal ar gyfer natur. Mae hyn wedi cynnwys gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Tref Lleol, y Cyngor Sir, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ymhlith eraill. Wedi'i leoli yn Nyffryn Aman, mae INCC wedi meithrin perthnasoedd â thirfeddianwyr lleol ac mae'r ymgysylltu hwn wedi arwain at dirfeddianwyr yn cytuno i amrywiaeth o welliannau i gynefinoedd ar eu tir, o osod blychau adar ac ystlumod i gychwyn pori gan wartheg ar laswelltir corsiog a rheoli dolydd yn well. Derbyniodd y prosiect olaf arian drwy Bartneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin gan arian **Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru** i ddefnyddio gwair gwyrdd o safleoedd 'rhoddwr' addas sy'n gyfoethog mewn rhywogaethau yn y dyffryn ar safleoedd 'derbynyddion' lleol i wella eu dyffryn bioamrywiaeth. Caiff y rhain eu monitro yn 2023.

Mae porwyr a chontractwyr lleol hefyd wedi bod yn rhan annatod o waith y prosiect, gan gyflawni tasgau fel ffensio i hwyluso gwartheg yn pori a hefyd bod yn ffynhonnell da byw addas. O ganlyniad mae rhwydwaith o dirfeddianwyr lleol wedi'i sefydlu sy'n gallu cyflawni dyletswyddau 'gwylio' o amgylch y dyffryn, i fonitro da byw.

Bu llawer i gyffroi'r **Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn** yn Sir Gaerfyrddin yn 2022. Yn gacwn blaenoriaeth (Adran 7), ailddarganfyddwyd y Cacwn Cynefinol (*Bombus ruderatus*) yn y sir ar ôl absenoldeb o sawl degawd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw credwyd ei bod i bob pwrpas wedi diflannu o Gymru. Gwnaethpwyd nifer o gofnodion o amgylch ardaloedd Brechfa a Rhandir-mwyn. Mae'n ymddangos fel pe bai Cacynnod Cynefinol wedi bod yma, heb eu darganfod, ers blynyddoedd lawer, yn byw o fewn ardaloedd o ymylon ffyrdd a dolydd sy'n llawn blodau. Mae eu bodolaeth yma yn wyneb gostyngiadau ledled y wlad yn fwyaf tebygol o ganlyniad i'r rheolaeth glaswelltir dwysedd stocio isel, dwysedd isel sy'n digwydd yn yr ardal sydd yn caniatáu i flodau gwyllt ffynnu.

Yn ogystal, mae rhywogaeth brin arall, Cacwn y Llus (*Bombus monticola*) wedi'i gweld ar Fynydd Llanllwni ac mae cacwn arall (*Bombus soroeensis*) bellach wedi'i weld yn Sir Gaerfyrddin, ar safle ger Brechfa. Mae'n ddigon posib bod mwy i'w darganfod.



Gwirfoddolwyr a staff Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru yn gwasgaru hadau dolydd a gasglwyd yn lleol ar laswelltir prin ei amrywiaeth o rywogaethau mewn daliadau tir cyfagos.



© Lawrence Harris

Derbyniodd **Cyngor Sir Caerfyrddin** arian grant **Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru** i wneud gwaith ar safle diddorol sy'n eiddo i'r cyngor ger yr aber yng Nghei Cydweli, sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth gan bobl leol.

Bu contractwyr lleol yn gweithio i adfer pwll llawn llaid i'w ddychwelyd i ddŵr agored a chafwyd effeithiau cadarnhaol ar unwaith. Yn ogystal â gwella amwynderau i ymwelwyr, bydd yn gynefin addas i ddyfrgwn; rydym yn gwybod bod rhai yn yr ardal. Gadawyd ardal o'r pwll llawn llaid i fod gan ei fod wedi troi'n gynefin corstir diddorol a gyda'i gilydd mae hwn, ynghyd â'r dŵr agored, y prysgwydd ar yr ynys a llystyfiant 'newydd' y glannau bellach yn ffurfio 'brytwaith' diddorol o gynefinoedd a fydd o fudd i amrywiaeth o rywogaethau.

Yn ogystal, bydd mynediad newydd i gae cyfagos, a oedd gynt yn cael ei bori'n drwm, yn golygu y bydd ardal yn cael ei phlannu â choed a'i ffensio. Bydd hyn yn caniatáu i weddill y cae fod yn 'bori cadwraethol' gyda'r nod o adfer glaswelltir llawn rhywogaethau. Yn y tymor hir, gallai'r safle hwn ddod yn Warchodfa Natur Leol arall – gan ffurfio rhan o 'rwydwaith natur' o safleoedd ar hyd arfordir Sir Gaerfyrddin sy'n cael eu rheoli ar gyfer bioamrywiaeth gan y cyngor.



Mae swyddog **Coed Cymru** yn Adain Gadwraeth y Cyngor wedi rhoi cyngor ar waith rheoli coetir ar dri safle'r Cyngor Sir eleni. O ganlyniad, cyflwynwyd gan CNC drwyddedau torri ar gyfer clirio coed conwydd a chwythwyd gan y gwynt ac ailstocio â choed llydanddail brodorol yn Llyn Llech Owain a gwaith teneuo pinwydd ym Mharc Coetir y Mynydd Mawr a phrysgoedio ym Mharc Natur Ynysdawela i'w gwblhau dros y 2 flynedd nesaf.

Mae cynlluniau Creu Coetir Glastir wedi'u cymeradwyo ar gyfer tri safle'r Cyngor (yn Ffair-fach, Llandybie a Chydweli) a bwriedir plannu tua 4.5 hectar ar y safleoedd hyn y gaeaf hwn. Mae naw safle arall sy'n eiddo i'r Cyngor wedi'u nodi fel rhai sydd â photensial ar gyfer creu coetir ac mae arolygon cynefinoedd yn mynd rhagddynt i gadarnhau a yw'r rhain yn addas ar gyfer plannu coed. Mae cynlluniau Creu Coetir Glastir hefyd wedi'u paratoi ar gyfer dau dirfeddiannwr preifat arall sy'n dod i gyfanswm o tua 2 hectar o goetir brodorol newydd. Mae Swyddog Coed Cymru hefyd wedi rhoi cyngor ar wahanol geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar goetiroedd yn y sir ac mae'n cyfrannu at ddatblygu strategaeth goed newydd i'r Cyngor.



Oherwydd cysylltiadau â Phartneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin, cafodd **Dŵr Cymru** ei hysbysu am y cyfleoedd ar gyfer cynaeafu hadau trwy waith Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Gwahoddwyd Dŵr Cymru gan Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru i ddysgu am reolaeth y dolydd yn y Gerddi ac ers hynny mae wedi cyflwyno'r arfer gorau a ddefnyddir gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar draws y tiroedd mae'n eu cynnal a'u cadw. Arweiniodd y cyswllt hwn hefyd at bartneriaeth lle casglodd Dŵr Cymru ôl-gerbyd yn llawn o wair gwyrdd gan Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru i'w wasgaru ar nifer o'u safleoedd – y prif un oedd cronfa ddŵr Llys y Frân (Sir Benfro). Gwahoddwyd gwirfoddolwyr o'r ardal leol i helpu gyda'r lledaenu. Ni fyddai'r dull partneriaeth hwn wedi bod yn bosibl heb y cysylltiadau a wnaed drwy' Bartneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin, a'r cyfle i ddysgu gan sefydliadau ac arbenigwyr eraill am sut y gall Dŵr Cymru barhau i wella bioamrywiaeth ar raddfa fawr ar draws eu safleoedd.



Mae Llys-y-frân yn bartner gyda Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar gyfer prosiect bioamrywiaeth dolydd blodau gwyllt

Ym **Mharc Gwledig Llyn Llech Owain** mae cyllid gan Gronfa Rhwydwaith Natur Llywodraeth Cymru wedi caniatáu ymyrraeth radical wrth reoli/adfer cynefinoedd rhostir o bwysigrwydd rhyngwladol. Cliriwyd ardal sylweddol o binwydd o'r safle; bydd hyn yn caniatáu adfer rhostir a blannwyd gyda chonifferau yn y gorffennol.

Mae arolwg cynefinoedd wedi'i gwblhau ac rydym yn aros am yr adroddiad, a fydd yn llywio rheolaeth y safle yn y dyfodol. Cynhaliwyd ystod o arolygon rhywogaethau a chadarnhawyd beth oedd yn cael ei amau - mae Llyn Llech Owain yn safle llawn rhywogaethau. Cadarnhawyd pathewod, felly bydd rheolaeth y coetir yma yn ystyried yr argymhellion yng ngoleuni presenoldeb y rhywogaeth warchoddedig hon. Nodwyd tua 125 o rywogaethau o wyfynod a hefyd y Menyg Cyll prin (*Hypocreopsis rhododendri*) – rhywogaeth sy'n cael blaenoriaeth ym Mhrydain sy'n tyfu ar hen goed cyll.

Mae gwahanol gyfarwyddiadau rheoli wedi'u cymhwyso ar gyfer ardaloedd rhostir gyda chymysgedd o dorri ar uchderau gwahanol a rholio rhedyn dros unrhyw ardal o redyn y gellid, yn ddiogel, ei chyrraedd. Bydd gwartheg a merlod yno yn ystod yr hydref a'r gaeaf i bori'r tir.



Dechreuodd gwaith a ariannwyd gan grant **Coetiroedd Cymunedol Llywodraeth Cymru/Cronfa Dreftadaeth y Loteri**, yn 2022 ym **Mharc Coetir y Mynydd Mawr**, ac er bod gwaith

cynnar wedi canolbwyntio ar fynediad, dechreuodd y gwaith o reoli'r brif ddôl ym mis Medi gan ddefnyddio amrywiol ddulliau. Rheolwyd ardal trwy dorri a chasglu sgil-gynhyrchion, tomwelltwyd ardal arall i reoli helyg goresgynnol, a chrëwyd tair "ynys" gan ddefnyddio'r dull torri a chasglu. Bydd llwyddiant yr holl ddulliau hyn yn cael ei fonitro y flwyddyn nesaf. Yn ogystal, crëwyd dau o bantiau byrhoedlog - sy'n bwysig ar gyfer amrywiaeth o infertebratau.

Yn ogystal, bydd 0.4 hectar o goetir newydd yn cael ei greu trwy blannu coed a llwyni sy'n blodeuo'n gynnar i ddarparu'r cyflenwad cyntaf o neithdar a phail ar gyfer peillwyr lleol. Cynhaliwyd arolygon ecolegol i ddarparu data gwaelodlin o'r ystod o infertebratau ar draws y dolydd a chynefinoedd rwbel glo yn y parc. Mae'r rhain wedi amlygu gwerth y safle - mae rhywogaethau nas cofnodwyd o'r blaen yn y sir wedi eu canfod. Gyda chyn lleied o wastraff glo heb lystyfiant yn y sir, mae hyn yn gyfle da i reoli'r cynefin i'w wella cymaint â phosibl ar gyfer y rhywogaethau y mae'n eu cynnal.




Oherwydd cyfyngiadau staff, cynhaliodd **Gwarchod Glöynnod Byw** y prosiect Brithribin Brown yn gyfan gwbl, a hynny gan eu tîm o 12 o wirfoddolwyr rheolaidd. Mae hyn unwaith yn rhagor yn amlinellu pwysigrwydd yr ymdrech werthfawr gan wirfoddolwyr dros gadwraeth natur yn Sir Gaerfyrddin. Ar gyfer y prosiect hwn, ymwelwyd â 64 o safleoedd dros 23 diwrnod y gaeaf diwethaf, sy'n cyfateb i 150 diwrnod o wirfoddoli. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd hyn yn cynnwys cyfarfod a sgwrsio gyda pherchnogion neu denantiaid, a dangosodd nifer o dyddynwyr gryn ddi-ddordeb yn y prosiect a'r pili-pala. Arweiniodd hyn at sawl fferm fach yn addo newid eu trefn torri gwrychoedd blynyddol. Cafodd yr arolwg hwn gefnogaeth cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy Bartneriaeth Natur Sir Gâr.

Amlygwyd y mater o ddiffyg rheolaeth ar dorri gwrychoedd gan rai tirfeddianwyr pan dorwyd eu gwrychoedd heb ganiatâd.

Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae Gwarchod Glöynnod Byw wedi sylwi ar grebachu cyffredinol ar yr ardaloedd a feddiannir gan frithribinau brown yn ne-orllewin Cymru (credir bellach eu bod wedi darford rhwng Hendy-gwyn ar Daf a Derwen Lydan), ond mae cynnydd yn y niferoedd yn y gorllewin (rhwng Cilgerran ac Aberteifi). Mae'r model dirwedd a ddangosir yma yn dangos orau'r crebachu cyffredinol hwn.

Sir Gaerfyrddin yw'r sir gryfaf yng Nghymru o hyd ar gyfer Britheg y Gors ac yn ogystal ag ardal Prosiect Caeau Mynydd Mawr, mae gwaith monitro gan wirfoddolwyr yn parhau ar draws Dyffryn Aman a safleoedd pwysig eraill o amgylch Ffarmers, Harford, Brechfa, Trelech, Alltwallis a Llandeilo.



Mae Ffigur uchod yn dangos y gymhariaeth o fodelau o ardaloedd tirwedd a feddiannwyd yn 2009 yn seiliedig ar gofnodion o 2000 i 2009 (lliw coch solet) ac mae'r ardal dirwedd a feddiannwyd yn 2019 yn seiliedig ar gofnodion o 2010 i 2019 (sydd mewn gwyrdd). Yn y ddau, mae modelu yn cynnwys tir o fewn radiws o 5 cilomedr i bob cofnod perthnasol ond nid yw'n cynnwys tir > 200m uwch lefel y môr.

Dros y degawd diwethaf, mae technoleg camera wedi gwella'n sylweddol yn ogystal â dod yn fwy fforddiadwy. Mae hyn wedi bod yn achubiaeth i grwpiau fel **Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru**, oherwydd ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd y prosiect yn dibynnu ar achosion prin o weld Gwiwerod Coch yn cael eu hadrodd i'r bartneriaeth er mwyn gwybod ble roedd yr anifeiliaid, a'u bod yn goroesi. Roedd yr achosion hyn yn anaml ac weithiau'n annibynadwy. Yr unig ffordd i wirio statws poblogaeth oedd eu dal â maglau byw, a oedd yn ymdrech fawr ac yn tarfu'n fawr ar y gwiwerod eu hunain.

Newidiodd trapiau camera hynny i gyd. Bellach, mae'r prosiect yn dibynnu'n helaeth ar drapiau camera (mae gan y prosiect tua 100), gan eu defnyddio i gadarnhau a monitro gwiwerod coch mewn ffordd sy'n tarfu llai arnynt.

Yn Sir Gaerfyrddin mae Rhandir-mwyn wedi bod yn lleoliad allweddol ym Mhrosiect y Wiwer Goch ers tro. Er gwaethaf gwaith ymroddedig gwirfoddolwyr allweddol a gweld Gwiwerod Coch yn y pentref neu'n agos ato ers blynyddoedd lawer, ni welwyd dim newydd o ddiwedd 2020 i ddechrau 2021, ac ni fu trapiau camera yn llwyddiannus. Y gred oedd bod hyn oherwydd gweithgareddau coedwigaeth yn agos i'r pentref, a'r Gwiwerod Coch yn symud gerllaw.

Yna bu'r prosiect yn ddigon ffodus i nodi gwiwerod cochion yng nghoedwig Cwm Rhaeadr – a'r bele swil. Y nod oedd trapio'r gwiwerod coch a defnyddio dadansoddiad DNA i ddarganfod sut oeddent yn perthyn i'r rhai mewn mannau eraill yng nghoedwigoedd Canolbarth Cymru lle mae'r prosiect wedi'i leoli. Fodd bynnag, ni ddigwyddodd hyn gan i'r Gwiwerod Coch ddiflannu oddi yma hefyd yn ystod y sychder yr haf hwn. Unwaith eto mae'n anodd gweld Gwiwerod Coch y canolbarth.

Datblygwyd prosiect **Chwilfa Fawr y Dolydd (BMS)** gan bwyllgor llywio **Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin** a'i lansio yn 2021. Y nod cychwynnol oedd cofnodi rhywogaethau planhigion ar draws amrywiaeth o fathau o laswelltir gan gynnwys dolydd, rhodfeydd coetir, mynwentydd, glaswelltiroedd amwynder ac mylon ffyrdd. Mae'r prosiect wedi esblygu ac mae ganddo bellach gylch gorchwyl ehangach. Gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, mae'r BMS yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ac amrywiaeth rhywogaethau planhigion glaswelltir, gan ddarparu awgrymiadau adnabod, a thynnu sylw at gysylltiadau penodol rhwng planhigion a rhywogaethau eraill fel infertebratau a ffyngau. Nid yw'r prosiect yn gorgyffwrdd â chynlluniau botanegol presennol fel y Cynllun Monitro



Dyma un o'r lluniau cyntaf i ni gael o wiwerod coch yng Nghwm Rhaeadr



Planhigion Cenedlaethol (NPMS) neu Asesiad Cyflym o Laswelltir Plantlife.

Hyd yn hyn, mae'r BMS wedi ymgysylltu â grwpiau dolydd, tirfeddianwyr, canolfannau cofnodion amgylcheddol lleol (LERCs), partneriaethau natur lleol, grwpiau botaneg, Ymddiriedolaethau Natur ac asiantaethau cefnffyrdd. Mae'r BMS yn parhau i hyrwyddo'r prosiect ledled y DU ac ar hyn o bryd yn gweithio ar lyfr a fydd yn cynnwys adnabod planhigion a chysylltiadau planhigion. Yn 2023 rydym yn bwriadu cynyddu nifer y safleoedd glaswelltir a chwilir a chynyddu nifer y cofnodion planhigion a gynhyrchir. Rhennir yr holl gofnodion gyda'r Ganolfan Cofnodion Amgylcheddol Leol berthnasol er mwyn gwneud y mwyaf o allbwn y prosiect.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn

www.bigmeadowsearch.co.uk, @bigmeadowsearch ar Twitter ac ar grŵp Facebook Big Meadow Search.

Lansiwyd Prosiect Pedair Afon Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ym mis Hydref 2022 a bydd yn diogelu, gwella ac yn helpu i adfer afonydd Teifi, Tywi, Cleddau ac Wysg (pob un wedi'u dynodi'n [Ardaloedd Cadwraeth Arbennig \(ACA\)](#)). Bydd yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau lleol, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Coleg Sir Gâr, Coed Cadw gyda chymorth ariannol gan Raglen LIFE yr UE, Llywodraeth Cymru a Dŵr Cymru. Bydd y prosiect hefyd yn ceisio ymgysylltu a gweithio'n agos gyda grwpiau ehangach megis Partneriaeth Natur Leol Sir Gaerfyrddin.

Amcangyfrifir y bydd 776 cilomedr o afonydd yn cael eu gwella lle bydd dros £9 miliwn yn cael ei fuddsoddi i fynd i'r afael â heriau cadwraeth brys dros y pum mlynedd nesaf.

Yn Sir Gaerfyrddin, bydd y prosiect yn canolbwyntio ar adfer ACA Afon Tywi. Bydd hyn yn cynnwys:

- gwella cynefinoedd afonydd ac amodau ar gyfer pysgod mudol,
- adfer prosesau afonydd naturiol fel ystumiau, gwlyptiroedd ac ardaloedd gorlifdir,
- gweithio gyda ffermwyr i ddiogelu coridorau afonydd a lleihau gwaddodion a maetholion rhag mynd i mewn i afonydd,
- lleihau effaith rhywogaethau goresgynnol fel Jac y Neidiwr, *American Skunk Cabbage*, ac Efwr Enfawr yn yr afon.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan y prosiect

www.naturalresources.wales/4RiversforLIFE



Mae **Canolfan Gwlyptir Llanelli**, o eiddo Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir ym Mhenclacwydd ar lan ogleddol Cilfach Tywyn, sef ardal a ystyrir fel yr aber pwysicaf i adar hirgoes ac adar dŵr sy'n gyfan gwbl yng Nghymru. Fe'i lleolir yn un o'r prif lwybrau hedfan ar gyfer adar mudol, ac mae mwy na 50,000 yno yn y gaeaf.

Yn 2022 cwblhaodd Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir ei phrosiect Morlynnoedd, a greodd gynefin gwlyptir newydd a gwella'r morlynnoedd halwynog a dŵr croyw presennol.

Fel rhan o'r prosiect, crëwyd system trin dŵr naturiol i wella ansawdd dŵr, ac ail-broffiliwyd ynysoedd a'u creu i'w gwneud yn ddeniadol i adar hirgoes nythu a bwydo yn ogystal ag i wylanod penndu nythu. Crëwyd ardaloedd dyfnach ar gyfer hwyaid plymio fel hwyaid pengoch a hwyaid copog, ac mae gwenoliaid y glennydd bellach wedi cytrefu banc nythu artiffisial newydd.

Mewn ardaloedd eraill o'r warchodfa mae Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir wedi gweithio mewn partneriaeth â **Pori Natur a Threftadaeth** (PONT - prosiect anifeiliaid pori Cymru), gan gyflwyno pori i ardaloedd newydd i wella'r cynefinoedd glaswelltir. Gan weithio gyda Chadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid mae cerflun neidr helyg enfawr a lle i greaduriaid aefgysgu wedi'u creu yn y warchodfa, a oedd wedi'i lenwi â thoriadau o'r dolydd blodau gwyllt.

Cyn bo hir, bydd Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir yn dechrau adolygiad 5 mlynedd ac yn ailysgrifennu Cynllun Rheoli Gwarchodfeydd Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir Llanelli – a fydd yn llywio gwaith dros y blynyddoedd i ddod.




Mae Rhydyglyn yn gymysgedd o goetir, porfa a glaswelltir corsio ac mae wedi'i drosglwyddo i **Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru** i'w reoli. Mae'r safle'n agos at safleoedd eraill WTSWW - Llynnoedd Talylychau a Chaermalwas Fach ac mewn ardal lle mae'n laswelltir wedi'i wella'n bennaf neu'n cael ei bori'n helaeth gan ddefaid, *gan arwain at ychydig o gyfleoedd i fywyd gwyllt yn unig*. Saif y safle rhwng nifer o boblogaethau lleol pwysig o fritheg y gors ac mae'n rhoi cyfle perffaith ar gyfer rheolaeth addas i wella cysylltedd o fewn y dirwedd leol.

Mae'r safle ar hyn o bryd yn dioddef o ddiffyg rheolaeth sensitif ac mae'r glaswelltir corsio yn cael ei esgeuluso a'i danbori, tra bo'ry caeau sychach hygyrch yn cael eu gorburi'n drwm gan ddiadell o ddefaid. Gyda chymorth **Grant Lleuedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru**, trwy Bartneriaeth Natur Sir



Gaerfyrddin, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda chontractwr lleol, i reoli prysgwydd mieri sy'n ymledu a dechrau adfer y glaswelltir corsiog. Bydd twmpathau *Molinia* (*purple moorgrass*), sy'n tyfu i faint fel bod llystyfiant arall yn cael ei fodd, gan gynnwys Tamaid y Cythraul, yn cael eu torri'n ôl. Bydd adroddiad pori gan **PONT**, sefydliad sy'n hyrwyddo pori cadwraethol hefyd yn cael ei lunio. Bydd argymhellion o hyn yn helpu i lywio'r pori dilynol ar draws y safle, sy'n angenrheidiol ar gyfer ei reolaeth gynaliadwy barhaus.

Mewn partneriaeth â [Phrosiect Fflora Dan Fygythiad y DU Banc Hadau'r Mileniwm](#), mae **Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru** wedi bod yn parhau i gasglu hadau o rywogaethau planhigion sy'n brin ac yn prinhaus ledled Cymru. Mae'r hedyn yn cael ei brosesu a'i storio yng Nghanolfan Wyddoniaeth Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn labordai Banc Hadau Cenedlaethol Cymru, ac mae hanner pob casgliad hadau yn cael ei anfon i Fanc Hadau'r Mileniwm. Yn 2022 mae partneriaid y Bartneriaeth Natur wedi helpu i hwyluso lleoli poblogaethau o rywogaethau targed a sicrhau caniatâd casglu yn Sir Gaerfyrddin a thu hwnt. Mae'r casgliadau yn Sir Gaerfyrddin eleni wedi cynnwys Ffacbysen Chwerw (*Vicia orobus*) ac Effros y Llychlyn (*Eurphrasia anglica*) o RSPB Gwenffrwd Dinas, *Persicaria minor* o ystumllynnoedd Dinefwr a Helys pigog (*Salsola kali*) o Ben-bre.



Cynyddodd y cyfrif ar gyfer cofnodion biolegol ar gyfer Sir Gaerfyrddin a gedwir gan **Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru** o 1,163,421 ym mis Ionawr i 1,242,142 ym mis Medi (gan gynnwys tua 58,000 o gofnodion mewn chwarter sy'n llawer uwch na'r arfer). Yn 2022 cynhaliodd Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru (CGBGC) ddau ddiwrnod cofnodi ar gyfer cofnodwyr sirol ar ffermydd yn Llangynin a Myddfai – mae'r rhain yn gyfle i'r arbenigwyr sirol wneud rhywfaint o waith cofnodi â ffocws ar safleoedd pwysig a adnabuwyd a gallant ddarparu cofnodion gwerthfawr ar dir sy'n eiddo preifat nad yw llawer yn ymweld ag ef. Drwy gydol y flwyddyn, mae CGBGC wedi derbyn cofnodion gan nifer o Is-gofnodwyr Sir Gaerfyrddin; David Bannister, Sam Bosanquet, Theresa Greenaway, Richard a Kath Pryce, yn ogystal â chofnodion pwysig eraill i'r sir o nifer o gofnodwyr eraill. Yn arwyddocaol ymhlith y rhain roedd nifer fawr o gofnodion ystlumod gan Denise Plume a gynorthwyodd CGBGC i greu [Atlas Ystlumod Sir Gaerfyrddin](#) y llynedd a lwythwyd ar ein gwefan ym mis Ionawr 2022.



Cynllun EcoEglwys yn Llandowror

Un o swyddogaethau pwysig **CGBGC** yw ymgysylltu â'r gymuned a chynhaliwyd pum digwyddiad cofnodi a hyfforddi, a ariannwyd

fel rhan o grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru. Roedd 'Dealltwriaeth Well o Fywyd Gwylt Cymdogaeth' yn cynnwys cyflwyniad i gofnodi biolegol ac yna taith gerdded bywyd gwylt i gofnodi safleoedd o amgylch y sir, Morfa Berwig, Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir Llanelli, a thair mynwent sy'n rhan o'r cynllun EcoEglwys yn Llandowror, Llansteffan ac Abernant. Cynhyrchwyd nifer dda o gofnodion rhywogaethau ar bob safle, rhoddwyd canllawiau i gennau mynwentydd i bob un o'r tair eglwys, a bu'n gyfle i drafod sut y gellid rheoli'r mynwentydd.

Cafodd Cymdeithas Fotaneg Prydain ac Iwerddon wythnos recordio lwyddiannus a phleserus iawn yng Nglynhir ddechrau mis Gorffennaf. Croesawodd y digwyddiad blynyddol hwn yn Sir Gaerfyrddin aelodau o Gymdeithas Fotaneg Prydain ac Iwerddon o gyn belled i fwrdd â Norfolk, Swydd Hertford a Swydd Gaer.

Uchafbwynt yr wythnos oedd ailddarganfyddiad, gan ferch 11 oed â llygad barcod, Tegeirian y Fignen (*Liparis loeselii*) sydd wedi'i gwarchod ac sy'n brin iawn yn ystod ymweliad â Sefydliad y Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mhentywyn. Nid yw'r rhywogaeth wedi'i gweld yn Sir Gaerfyrddin ers 2002. Ers hynny, mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi bod yn ymdrechu i'w ddychwelyd i'w gyflwr blaenorol er mwyn annog ei ailsefydlu. Daeth y criw o hyd i chwe phlanhigyn i gyd.

Gwnaed ymweliadau cofnodi â'r rhan fwyaf o'r sir yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd yn ddifrifol iawn canfod na chafodd sawl rhywogaeth anghyffredin a dargedwyd ar gyfer monitro eu hailddarganfod, er gwaethaf y ffaith bod arsylwyr yn gallu dychwelyd i'w hunion leoliadau. Gall nifer o ffactorau fod wedi cyfrannu at eu tranc, yn fwyaf arwyddocaol yn ôl pob tebyg, llygredd atmosfferig, newidiadau i reolaeth cynefinoedd a cholli cynefinoedd oherwydd esgeulustod neu welliant amaethyddol. Mae canfyddiadau cofnodion y BSBI yn symptomatig o gydnabyddiaeth hirddisgwylledig yr 'Argyfwng Natur' y mae ein hamgylchedd naturiol yn ei wynebu, sy'n ymddangos fel pe bai'n dod yn fwy difrifol yn gynt ac yn gynt.

Mae prosiect [Twyni ar Symud](#) ar hyd Arfordir Sir Gaerfyrddin yn parhau. Fe'i cefnogir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac fe'i darperir yng Nghymru gan Cyfoeth Naturiol Cymru, gan weithio ochr yn ochr â Gwasanaeth Hamdden Awyr Agored Cyngor Sir Gaerfyrddin i wella cyflwr y twyni hyn ar gyfer bywyd gwylt.



Tegeirian y Fignen © R.Pryce

Mae CNC wedi trefnu cael gwared ar ardaloedd sylweddol o blanhigion goresgynnol, gan gynnwys helygen y môr, sy'n niweidio iechyd y system twyni tywod eiconig yng Nghoedwig a Pharc Gwledig Pen-bre. Bydd hyn yn helpu i greu amgylchedd gwell ar gyfer bywyd gwylt a phlanhigion prin ac yn sicrhau bod y dirwedd arfordirol hon yn fwy gwydn i heriau'r dyfodol megis newid yn yr hinsawdd.

Rhestrir twyni tywod arfordirol fel y math o gynefin sy'n wynebu'r perygl mwyaf o golli bioamrywiaeth yn Ewrop, ac mewn llawer o achosion mae'r dirywiad mewn iechyd cynefinoedd yn deillio o dyfiant llystyfiant heb ei reoli. Mae prysgwydd yn mygu'r twyni tywod felly bydd cael gwared â phrysgwydd yn helpu i adfer y mathau o gynefinoedd sydd eu hangen ar rywogaethau arbenigol y twyni tywod. Bydd gwella'r cyflwr ecolegol yma yn cynyddu gallu'r dirwedd arfordirol hon i wrthsefyll bygythiadau eraill, megis tywydd eithafol ac amodau newidiol a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

Nid Twyni ar Symud yw'r unig brosiect sy'n gweithio i adfer twyni tywod pwysig Pen-bre. Mae prosiect Twyni Byw yr UE a ariennir gan LIFE, a reolir gan CNC, hefyd wedi bod yn rheoli twyni tywod i wella amodau ar gyfer bywyd gwylt yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ddau brosiect yn gweithio'n agos i adeiladu ar waith ei gilydd a'i gefnogi.

Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru** hefyd yn gweithio gydag **Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru** ar Gors Goch, Gwarchodfa Natur Genedlaethol Llanllwch, ac mae ganddynt gytundeb bellach i wneud gwaith adfer corstir o fewn y 5 mlynedd nesaf. Mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru wedi comisiynu gwaith clirio prysgwydd a thorri a chasglu twmpathau *Molinia* drwy'r Gronfa Rhwydwaith Natur, a bwriedir gwneud gwaith byndio a blocio ffosydd ar lefel isel drwy gronfa Rhaglen Weithredu CNC ar gyfer Mawnogydd.

Mae CNC yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gael cytundeb yn ei le ar gyfer Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dinefwr, a fydd yn galluogi amrywiaeth o waith ar y safle, gan gynnwys rheoli ystumllynnoedd, gwaredu rhododendron, datblygu meithrinfa goed, a ffensys i alluogi rheoli'r dolydd sy'n gorlifo.

Mae dau gytundeb ar waith ar gyfer Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Caeau Afon Gwili i gefnogi rheolaeth gadarnhaol o'r safle dynodedig hwn, gan gynnwys gwaredu prysgwydd sylweddol i geisio adfer glaswelltir sy'n gyforiog o rywogaethau.



Er mwyn helpu i gael gwybod mwy am rywogaethau ystlumod yn y sir a rhoi hwb i nifer y cofnodion, cynhyrnodd Prosiect Ymchwil Ystlumod Sir Gaerfyrddin, dan arweiniad gwirfoddolwyr, Atlas Ystlumod ar ddiwedd 2021 drwy weithio gyda Chanolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru.

Yn 2022 mae'r Project wedi adeiladu ar hyn drwy wneud gwaith arolygu gwerthfawr. Rhwng Mai a diwedd Medi, cafodd gwaith arolygu ei wneud i lenwi rhai o'r bylchau yng nghofnodion ystlumod ein sir. Gyrrwyd ar lwybrau ar gyflymder o 15mya, gan gofnodi ystlumod drwy ddefnyddio synwryddion ystlumod Anabat, tra'n gwneud nodiadau o anifeiliaid nosol eraill (marw neu fyw) ar hyd y llwybr. Mae hon yn ffordd lwyddiannus o gasglu nifer fawr o gofnodion yn gyflym iawn gan i bob arolwg cynhyrchu tua 80 cofnod, sy'n cyfateb i 60% o gyfanswm y cofnodion a gasglwyd eleni.

Yn ogystal, cafodd arolygon gardd gyda synwryddion eu defnyddio rhwng 3 a 7 diwrnod, gan ddarparu i'r prosiect wybodaeth am rywogaethau ystlumod lleol. Gwnaed cyfanswm o 19 o arolygon gan gynhyrchu 760 o gofnodion ac 8 rhywogaeth.

Y dull arolwg pwysig arall a wnaed oedd dal ystlumod o dan drwydded. Er bod llai o gofnodion yn cael eu cynhyrchu, helpodd i nodi a chadarnhau rhai o'r rhywogaethau mwy 'anodd' fel grŵp ystlumod *Myotis*, hefyd roedd yn rhoi i ni wybodaeth ychwanegol pam fod ystlumod yn defnyddio pob safle.

Gan ddefnyddio'r dulliau hyn, cynhyrchwyd cyfanswm o 2519 o gofnodion ystlumod.

Cyswllt

Facebook <https://www.facebook.com/profile.php?id=100080646277972>



Trap telyn a ddefnyddiwyd yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru i ddal ystlumod o dan drwydded (© Denise Plume)

Yn 2022 cefnogwyd Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru (WWRT) i ymgymryd â hawddfrentiau llwybrau pysgod gan Gronfeydd Dyranedig Strategol Cyfoeth Naturiol Cymru, a roddwyd i WWRT drwy Afonydd Cymru. Galluogodd hyn i waith pwysig gael ei wneud ar Afon Lash, Casllwchwr sy'n cynnwys:

- Newidiadau i graig gwely'r afon i greu llwybr llif i'w ddilyn gan y pysgod sy'n mudo i fyny'r afon, ac ychwanegu balciau coed i ddyfnhau'r pwll islaw'r rhaedrau.
- Gosod rhag-fared o flaen sil y bont, sydd wedi lleihau'r uchder mae angen i'r pysgod neidio i gyrraedd eu tiroedd silio i fyny'r afon.
- Ychwanegu balciau coed at sil bas y bont, i gynyddu dyfnder y dŵr a gwneud y daith i fyny ac i lawr yr afon yn haws.
- Ad-drefnu dwy gored o flochiau cerrig. Yma cafodd y blociau cerrig oedd yn ffurfio'r coredau gwreiddiol eu had-drefnu i ffurfio llwybr addas i'r rhywogaethau pysgod.

Mae'r gwaith ar Afon Lash wedi llwyddo i hwyluso symudiad y pysgod, ond mae cyfleoedd o hyd i reoli llifogydd yn naturiol a rheoli rhediad dŵr i ffwrdd o'r tir. Yn ystod y gwaith sylwyd bod Afon Lash yn cael problemau o ran gwaddod ac ansawdd dŵr o bryd i'w gilydd, a bod angen gwneud gwaith ymchwilio pellach i hynny yn rhan uchaf y dalgylch.

****Mae lluniau wedi cael eu tynnu gan staff a gwirfoddolwyr lle bo'r dŵr gwahanol uchder. Sylwch eu bod wedi cael eu tynnu mewn dŵr isel iawn ****

